

Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru
Adroddiad Blynyddol
Safonau'r Gymraeg
Ebrill 2021 – Mawrth 2022



Tribiwnlys Tir
Amaethyddol
Cymru

Agricultural
Land Tribunal
Wales

Cynnwys

Rhagair		3
Adran 1	Trefniadau Goruchwylio Cydymffurfiaeth	4
Adran 2	Asesu Cydymffurfiaeth	4

Rhagair

Dyma bumed adroddiad blynyddol Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru (“y Tribiwnlys”) ar ei gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg ers i'r Safonau ddod i rym ar 30 Mawrth 2017. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022.

Mae dwy ran i'r Tribiwnlys, sef yr ysgrifenyddiaeth a'r Aelodau. Mae'r ddwy yn gweithio gyda'i gilydd yn ystod y broses apelio a hawlio, gan wneud tasgau gwahanol. Yr Aelodau yw:

- cadeirydd y Tribiwnlys, hy yr arweinydd barnwrol;
- y dirprwy gadeiryddion; ac
- yr aelodau lleyg sy'n arbenigo mewn draenio tir, perchnogaeth tir a ffermio.

Mae'r Tribiwnlys, ei aelodau a'i benderfyniadau yn annibynnol ar y Llywodraeth. Mae gan sawl un o aelodau'r Tribiwnlys sgiliau Cymraeg cryf, a gellir cynnull panel llawn (hy cadeirydd cyfreithiol a 2 aelod lleyg) a all gynnal gwrandawriad llawn drwy'r Gymraeg i drafod materion yn ymwneud â Thenantiaethau Amaethyddol. Gellir clywed gwrandawiadau i drafod Draeniad hefyd yn y Gymraeg gan ddefnyddio cyfieithu ar y pryd.

Mae'r ysgrifenyddiaeth yn gyfrifol am waith gweinyddol y Tribiwnlys a delio â'r holl ymholiadau ffôn ac ysgrifenedig. Gweision sifil yw'r rhain a gyflogir gan Lywodraeth Cymru, ac maent yn rhan o Uned Tribiwnlysoedd Cymru, sy'n gyfrifol am weinyddu chwe thribiwnlys datganoledig ledled Cymru. Nid oes un o dîm yr ysgrifenyddiaeth yn rhugl yn Gymraeg, ond mae cymorth ysgrifenyddiaethau eraill uned ehangach Tribiwnlysoedd Cymru ar gael iddynt pan fo angen. Mae'r Uwch Reolwr Gweithrediadau a Phennaeth Tribiwnlysoedd Cymru yn rhugl yn y Gymraeg.

Dyddiad cyhoeddi: 30/09/2022

Manylion cyswllt ar gyfer ymholiadau: AgriculturalLandTribunalWales@llyw.cymru

Adran 1 – Trefniadau Goruchwylio Cydymffurfiaeth

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn wedi'i ddrafftio gan Uned Tribiwnlysoedd Cymru ac wedi'i gymeradwyo gan Lywydd y Tribiwnlys Tir Amaethyddol.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn i'w weld ar wefan y Tribiwnlys, ac mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cael gwybod ei fod wedi'i gyhoeddi.

Adran 2 – Aseu Cydymffurfiaeth

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Mae'r Tribiwnlys yn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r safonau cyflenwi gwasanaethau trwy:

- Darparu canllawiau i staff am sut i ymateb i ohebiaeth, ateb y ffôn a negeseuon e-bost.
- Templedi llythyr, sy'n cynnig cyfle i gwsmeriaid ofyn am ohebiaeth yn Gymraeg yn y dyfodol. Mae llythyrau ac e-byst y Tribiwnlys yn cynnwys brawddeg safonol sy'n dweud ei fod yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg, ac na fydd gohebiaeth Gymraeg yn arwain at oedi.
- Mae'r holl ddogfennau a gynhyrchir ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog, gan gynnwys ffurflenni cais a chanllawiau. Mae fersiynau Saesneg y dogfennau a'r ffurflenni a gynhyrchir gan y Tribiwnlys yn cynnwys brawddeg safonol sy'n dweud eu bod ar gael hefyd yn y Gymraeg, ac y gall y cyhoedd gyflwyno gwybodaeth i'r Tribiwnlys yn y Gymraeg.
- Gwneud yn siŵr bod pawb yn deall bod cyfleusterau yn eu lle i gynnal gwrandawiadau yn Gymraeg ac y gall unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwrandawiad.
- Mae pob tudalen ar ein gwefan ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno system ffôn newydd drwy Microsoft Teams ym mis Ebrill 2021. Mae'r Tribiwnlys yn defnyddio'r system newydd hon i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â safonau 8 a 9 gan ei bod yn sicrhau bod gan ddefnyddwyr y Tribiwnlys yr opsiwn o bwysu 1 i siarad ag aelod o'r tîm yn Gymraeg a phwysu 2 i siarad ag aelod o'r tîm yn Saesneg.

Defnyddio ein Gwasanaethau:

Daeth 20 o geisiadau i law'r tribiwnlys yn 2021-2022, a chynhaliwyd 2 wrandawiad. Ni chynhaliwyd unrhyw wrandawiadau yn Gymraeg.

Gwefannau

Nodir isod fanylion y niferoedd o weithiau yr ymwelwyd â hafan y Tribiwnlys ar y rhyngwyd, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

	Saesneg	Cymraeg	Cyfanswm
Nifer o weithiau yr ymwelwyd â'r dudalen	2,679	21	2,700

Safonau Llundio Polisi

Mae'r Tribiwnlys yn arfer ei swyddogaethau statudol yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n ei lywodraethu. Nid yw o fewn cylch gwaith y Tribiwnlys i ddatblygu polisi. Fodd bynnag, rydym yn ystyried effaith ein penderfyniadau gweithredol ar gyflenwi ein gwasanaethau trwy'r Gymraeg.

Safonau Cadw Cofnodion

Mae Hysbysiad Cydymffurfio Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer y Tribiwnlys, yn esbonio'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, Llundio Polisi, a Chadw Cofnodion y mae'n rhaid i'r Tribiwnlys gydymffurfio â hwy. Mae hysbysiad cydymffurfio wedi'i gyhoeddi ar wefan y Tribiwnlys: www.tribiwnlystiramaethyddol.llyw.cymru/sites/agriculturalland/files/2019-05/180323-alt-welsh-lang-standards-compliance-notice-cy.pdf. Rydym yn cadw cofnod o nifer y cwynion a dderbyniwn, os bydd cwyn o gwbl, mewn perthynas â chydymffurfio â'r Safonau.

Cwynion

Ni ddaeth unrhyw gwynion i law'r Tribiwnlys ynghylch gweithredu'r Safonau yn ystod y cyfnod adrodd.

Gwaith i ddod 2022-2023

1. Datblygu cynllun gweithredu ar gyfer hyrwyddo ac annog y cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud â'r Tribiwnlys.
2. Bydd y Tribiwnlys yn archwilio sgiliau aelodau Cyfreithiol a Lleyg y Tribiwnlys, hynny i adolygu ein cofnod o'r rhai fyddai'n gallu cynnal gwrandawriad Tribiwnlys drwy gyfrwng y Gymraeg.
3. Bydd gwaith hefyd yn cael ei wneud i lunio system hunanreoleiddio o ran cydymffurfio â safonau'r Gymraeg ar gyfer y Tribiwnlys.
4. Bydd dogfen ganllaw hefyd yn cael ei chynhyrchu, i roi cyfarwyddiadau i'r Tribiwnlys ar sut i gael gwasanaeth cyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd, ac ar hwyluso cyfarfodydd dwyieithog drwy lwyfannau fideo-gynadledda.